

% o'r holl weithgaredd yn ystod y chwarter hwn sy'n berthnasol i'r sector cig coch



Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- DOM, CYFFURIAU A CHLEFYD: Y CYSWLLT RHWNG CHWILODY DOM A FFERMIO
- MANTEISION DULLIAU PORI CYMYSG MEWN SYSTEMAU GLASWELLTIR-DA BYW
- AMAETHYDDIAETH ADFYWIOL: BRI-AIR A MWY
- AGRITECH 4.0: SAFBWyNTIAU AR GYFER TECHNOLEG YNY DYFODOL

Rhaglen Fentora

21 FFERMWR CIG COCH NEWYDDYN DEFNYDDIO'R RHAGLEN FENTORA

476 O FFERMWYR CIG COCHYN CAEL EU MENTORA AR HYN O BRYD

MAE 83% O'R HOLL RAI SY'N CAEL EU MENTORA YN FFERMWYR CIG COCH



Rhwydwaith Arddangos

Maestanglwyden: Lleihau nifer yr achosion o fastitis ar y safle ffocws

Mae safle ffocws Maestanglwyden wedi cael problemau sylweddol gyda mastitis o fewn y ddiadell o famogiaid masnachol yn y gorffennol, gyda 10-13% o famogiaid yn cael eu difa o ganlyniad i fastitis yn flynyddol, a 2-3% o farwolaethau mamogiaid o ganlyniad i fastitis difrifol. Nod y prosiect safle ffocws ar fferm Maestanglwyden yw lleihau nifer yr achosion o fastitis ar y fferm trwy frechu rhag Staph. aureus, sef bacteria heintus yn yr amgylchedd sy'n achosi mastitis mewn mamogiaid.

Derbyniodd hanner y mamogiaid a oedd yn cario gefeiliaid frechlyn, pum wythnos a phythefnos cyn wyna gyda'r nod o roi hwb i'r ymateb imiwneidd yn erbyn Staph. aureus a fyddai'n effeithio amynt o bosibl yn ystod eu cyfnod dan do wrth wyna.

Eleni, roedd y mamogiaid mewn gwell cyflwr cyn wyna ar y fferm, gan olygu bod y mamogiaid ychydig yn deneuach, gyda sgôr cyflwr corff (BCS) cyfartalog o 3-3.5. Gallai'r ffaith bod y mamogiaid mewn gwell cyflwr fod wedi cyfrannu at well safonau iechyd ymysg y mamogiaid, ac o bosibl, at well ymateb imiwneidd yn erbyn y bacteria ar y fferm.

Hyd yma'r gwanwyn hwn, mae chwe mamog wedi'i chofnodi gyda mastitis. Anfonwyd tri sampl i'w dadansoddi gan ddangos bod Staph. aureus yn dal i fod yn facteria problemus ar y fferm. O'r chwe mamog a effeithiwyd, ni chafwyd unrhyw farwolaethau. Mae tair wedi cael eu difa ac mae tair wedi gwella, neu wedi dangos arwyddion ysgafnach a heb gollir chwarter, a allai fod o ganlyniad i'r brechlyn.

Mae data pellach yn dal i gael ei gasglu. Mae rhif tag clust unrhyw famogiaid sy'n dangos arwyddion o fastitis clinigol wedi cael ei gofnodi, ac mae sgôr cyflwr corff a sampl o'r llaeth wedi cael eu casglu lle bo

hynny'n bosib. Mae hyn yn galluogi'r fferm i gymharu rhwng sgôr cyflwr corff mamog cyn wyna a phan fydd wedi cael mastitis, p'un a oedd y famog wedi cael ei brechu rhag mastitis, ac mae'r samplau llaeth yn cael eu hanfon i'r labordy i'w meithrin i ganfod y bacteria sy'n achosi'r mastitis.



Ffigur 1: Brechu mamogiaid ar fferm Maestanglwyden

Moelgan Fawr: Gwella'r patrwm lloia, cyfraddau beichiogi a lleihau colledion wrth loia

Cafodd 39 bolws rwmn smaXtec classic eu rhoi i heffrod Stabiliser blwydd oed ar safle arddangos Moelgan Fawr yn Ebrill 2020. Un o brif elfennau'r prosiect oedd canfod cyfnod ffrwythloni pob heffer gan ddefnyddio data gweithgaredd, er mwyn gallu rhoi AI ar y fferm ar yr adeg fwyaf addas o fewn y gylchred. Cwblhawyd y gwaith sganio beichiogrwydd ym mis Hydref 2020.

Cafodd 95% o'r heffrod eu canfod yn gyflo; 68% yn dilyn yr AI cyntaf, 5% yn dilyn yr ail AI a 21% yn dilyn paru gyda tharw. Gwelwyd bod 79% o'r gwartheg wedi sefyll, ac roedd y bolws yn cadarnhau hynny, a dangosodd y bolws nad oedd 26% o'r heffrod yn cylchu'n effeithiol (gan alluogi ymyrraeth brydlon gan y milfeddyg fel bo'r angen).

Yn ogystal â'r canlyniadau cadarnhaol fel y nodir isod, gwelwyd hefyd ambell i broblem:

- Heffrod wedi eu sganio'n wag = 5%
- Dim arwydd o ofyn tarw drwy arsylwadau gweledol = 8%
- Dim arwydd o ofyn tarw gan y bolws = 11%
- Diffyg bwlch rheolaidd o ran gofyn tarw yn ôl y bolws = 40%


Mae'r cyfraddau beichiogi'n dilyn yr AI cyntaf wedi cynyddu >10% ar ôl rhoi'r bolws. Mae hyn wedi arwain at gyflawni un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd ar ddechrau'r prosiect, sef cynyddu canran yr heffrod sy'n beichiogi'n dilyn yr AI cyntaf o 57% i >65%. Yn ogystal, mae nifer y gwellt semen a ddefnyddiwyd wedi lleihau 4% yn 2020 o'i gymharu â ffigurau 2019.

Roedd yr amser a dreuliodd yn arsylwi'r heffrod yr un fath â'r blynyddoedd blaenorol. Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r costau milfeddygol sy'n gysylltiedig â ffrwythloni'r heffrod cyn rhoi'r bolws yn ogystal ag ar ôl rhoi'r bolws. Noder, nid yw costau sgorio aeddfedrwydd a mesuriadau'r pelfis wedi'u cynnwys gan fod y rhain yn asesiadau ychwanegol a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect.

	2018	2019	2020
Costau milfeddygol (£/heffer)	£33.73	£29.51	£6.46
Arbediad ariannol o'r flwyddyn flaenorol (£/heffer)	N/A	-£4.22	-£23.05

Ffigur 2. Costau triniaeth filfeddygol yn gysylltiedig â ffrwythloni'r heffrod cyn ac ar ôl rhoi'r bolws. Defnyddiwyd system CIDR (Rhyddhau Cyffuriau dan Reolaeth yn Fewnol) i gydamseru yn 2018 a 2019; rhoddwyd bolws yn 2020).

Gweminarau



Enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd:

Atal afiechydon mewn wyna

Ffrwythlondeb moch: Sicrhau bod eich hychod yn beichiogi

A yw eich systemau trin y gorau ar gyfer trin da byw?

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

AFIECHYDON AR LYGAID DEFAID

SYSTEMAU PORI

GWELLA ICHYD PRIDD

FFRWYTHLONDEB Y FUCHES BIFF


Cliciwch yma i fynd i'r wefan.



Sut mae gwyndwn llysieuol yn effeithio ar iechyd a pherfformiad ŵyn sy'n pori

Mae tri ffermwr yng Ngheredigion a Sir Gâr yn ymchwilio a yw porfeydd aml-rywogaeth yn gallu gwella iechyd a pherfformiad eu hŵyn mewn gwirionedd trwy bori grwpiau cyfatebol ar borfeydd rhygwellt a phorfeydd aml-rywogaeth.


Ar ôl sefydlu'r cynydu ar ddechrau 2020, cyflwynwyd y mamogiaid i bob llain i ail-heintio'r lleiniau glân gyda pharasitiaid. Trwy gydol y tymor pori, cafodd yr ŵyn eu monitro ar gyfer cynnydd pwysau byw dyddiol a chyfrif wyau ysgarthol (FEC). Cafodd yr ŵyn eu stocio ar gyfradd o 2,000kg/ha a chafodd y lleiniau eu pori mewn cylchdro rhwng mis Awst a mis Hydref. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau o ran cynnydd pwysau byw dyddiol, ond roedd cyfrif wyau ysgarthol yr ŵyn a fu'n pori'r borfa aml-rywogaeth 30-65% yn is na'r rhai a fu'n pori'r rhygwellt. Bydd monitro pellach yn cael ei wneud yn 2021 i weld a yw'r canlyniadau hyn yn digwydd eto.



Ffigwr 3. Lefelau FEC ŵyn a samplwyd yn ystod y cyfnod casglu data ar bob un o'r safleoedd

Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd **116** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb o fewn y sector Cig Coch.



Grwpiau Trafod



Nifer y Grwpiau Trafod Cig Coch: 36

Astudiaeth Achos

Grŵp Trafod Dolygarn

Estynnwyd gwahoddiad i James Logan, Ffermwr Defaid y Flwyddyn y Farmers Weekly 2019, i roi cyflwyniad i'r grŵp am y newidiadau y mae wedi eu gwneud i'w fusnes dros y chwe blynedd diwethaf a'r modd y mae'r rhain wedi effeithio ar ei gostau cynhyrchu ac wedi'u lleihau. Dechreuodd James trwy ddisgrifio ei system ffermio ar Ffiniau'r Alban i'r grŵp, gan roi hanes y fferm a'r bridiau da byw yr oedden nhw'n eu cadw cyn cyflwyno'r newidiadau.

Dywedodd James eu bod, fel busnes, wastad wedi bod yn ymwybodol bod eu costau'n uchel a'u bod yn gwario llawer gormod o arian ar y rhannau anghywir o'r busnes. Yn 2011, fe gawsant argyfwng iechyd anifeiliaid, ac fe wnaeth hynny iddyn nhw ail-ystyried eu busnes. Fe wnaethon nhw newid eu hamcan i:

"Ddatblygu model busnes a system ffermio sy'n broffidiol a chynaliadwy heb ddibynnu ar gymorthdaliadau."

Fe wnaeth James lawer o waith ymchwil yn y DU a thramor i wledydd megis Seland Newydd i weld sut y byddent yn gallu newid eu system. Fe ddewisodd system yn seiliedig ar borfa gan ganolbwyntio ar leihau costau cynhyrchu.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae James wedi dechrau tyfu cynydu betys porthiant, cêl a swêds i'w cyflwyno i'w system borthiant newydd. Mae wedi newid y brid o ddefaid mae'n ei gadw, ac wedi penderfynu canolbwyntio ar allu'r brid i fagu pwysau oddi ar borthiant. Mae hefyd wedi symud dyddiad dechrau'r cyfnod ŵyna o 1 Ebrill i 22 Ebrill. Penderfynodd gadw ei wartheg allan dros y gaeaf a dechreuodd fenter cig lloi newydd yn 2017.

Prif negeseuon:

- Gwnewch gynllun, ond byddwch yn hyblyg; ffermiwch yr hyn sydd o'ch blaen
- Mesurwch yr hyn sy'n bwysig a defnyddiwch y canlyniadau
- Defnyddiwch gynllun wrth gefn pan fo angen, a sicchwch fod gennych chi gynllun o'r fath rhag ofn
- Peidiwch â thyfu mwy o laswellt os na allwch ei ddefnyddio
- Sicchwch fod gennych dîm da o'ch cwmpas
- Mae cyngor da yn werth talu amdano

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



Colledion ŵyna – Rhan 2: Rhwng geni a diddyfnu	
Rheoli parasitiaid mewn defaid – Rhan 1: Llyngyr main a phryfed chwythu	
Rheoli parasitiaid mewn defaid – Rhan 2: Y clafr, llau a llyngyr yr iau	
Deall clefyd Johne	

